AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU
PANEL GWEITHREDOL

Cofnodion **Panel Gweithredol** Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd ddydd Llun 16 Mehefin 2025, yn rhithwir dros Zoom. Dechreuodd y cyfarfod am 14.00 o'r gloch.

Cynghorydd	**Yn cynrychioli**
Y Cyng. Dylan Rees (Cadeirydd)	Cyngor Sir Ynys Môn
Y Cyng. Paul Cunningham (Dirprwy Gadeirydd)	Cyngor Sir y Fflint
Y Cyng. Carol Beard	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Y Cyng. Chris Hughes	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Y Cyng. John Ifan Jones	Cyngor Sir Ynys Môn
Y Cyng. Paul Rogers	Cyngor Sir Wrecsam
Y Cyng. Gareth Sandilands	Cyngor Sir Ddinbych
Y Cyng. Dale Selvester	Cyngor Sir y Fflint
Y Cyng. Antony Wren	Cyngor Sir y Fflint

Hefyd yn bresennol:

Dawn Docx	Prif Swyddog Tân
Helen MacArthur	Prif Swyddog Tân Cynorthwyol
Justin Evans	Prif Swyddog Tân Cynorthwyol
Anthony Jones	Prif Swyddog Tân Cynorthwyol
Mike Plant	Rheolwr Ardal - Perfformiad, Cynllunio a Thrawsnewid
Llinos Evans	Pennaeth Cyfathrebu Corfforaethol
Dafydd Edwards	Trysorydd
Gareth Owens	Clerc a Swyddog Monitro
Dan Stephens	Prif Gynghorydd Tân ac Achub Cymru
Marian Lloyd Rees	Atebol - Cyfieithydd
Lisa Allington	Cynorthwyydd Gweithredol

1.0 YMDDIHEURIADAU

Cynghorydd	**Yn cynrychioli**
Y Cyng. Alan Hughes	Cyngor Sir Ddinbych
Y Cyng. Rondo Roberts	Cyngor Sir Wrecsam

YN ABSENNOL

Cynghorydd	**Yn cynrychioli**
Y Cyng. Gareth A Roberts	Cyngor Gwynedd

2.0 DATGANIADAU O FUDDIANT

2.1 Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

3.0 HYSBYSIAD O FATERION BRYS

3.1 Cyflwynodd PST Docx hysbysiad i drafod penodi i swyddi Prif Swyddog Tân Cynorthwyol a fyddai'n eitem Rhan II.

4.0 COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 17 MAWRTH 2025

4.1 Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Mawrth 2025 i'w cymeradwyo. Cynigiwyd eu bod yn gofnod gwir a chywir o'r trafodion. Eiliwyd hyn a'i basio gyda phawb o blaid.

4.2 PENDERFYNWYD:

i) cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod gwir a chywir o'r cyfarfod a gynhaliwyd.

5.0 MATERION YN CODI

5.1 Gofynnwyd am adborth mewn perthynas â pharagraff 6.8, eitem 3, lle roedd yr Aelodau wedi datgan y byddent yn ceisio cymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru (LlC) mewn perthynas â'r Adolygiad Diwylliant Annibynnol.

5.2 Cadarnhaodd PST Docx fod Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth) yn gweithio'n agos gyda LlC ar wella diwylliannol, a bod LlC wedi ariannu hyfforddiant Cwynion Cyflogaeth a Disgyblaeth a ddarparwyd yn ddiweddar i Dîm Arweinyddol y Gwasanaeth, Adnoddau Dynol (AD) ac Arweinwyr Canol. Roedd y sesiwn wedi arwain at gadarnhad bod y polisïau yr oedd y Gwasanaeth wedi bod yn eu defnyddio yn bodloni'r holl safonau arfer gorau, ac roedd hynny'n beth cadarnhaol iawn. Roedd wedi bod yn sesiwn ddefnyddiol iawn ac roedd pawb a fu'n rhan ohoni wedi elwa yn ei sgil. Parhaodd y Gwasanaeth i weithio gyda LlC mewn perthynas â chymorth ychwanegol.

6.0 ADOLYGIAD DIWYLLIANNOL ANNIBYNNOL O WASANAETH TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

6.1 Dywedodd y PST, yn ychwanegol at y Cynllun Gwella Strategol, bod y Bwrdd Gwella Diwylliannol eisoes wedi dechrau, ac roedd ei aelodaeth yn cynnwys Cadeirydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) a'r Cynghorydd Sharon Doleman fel yr Aelod sy'n Hyrwyddo Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, ynghyd â chynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru. Roedd LlC yn gweithio gyda'r Gwasanaeth i recriwtio person allanol i eistedd ar y Bwrdd Diwylliannol er mwyn rhoi her annibynnol.

6.2 Cyflwynodd RhA Mike Plant y diweddariad ar yr Adolygiad Diwylliannol Annibynnol o'r Gwasanaeth a chadarnhaodd y camau nesaf ar daith ddiwylliannol y Gwasanaeth.

6.3 Tynnodd un Aelod sylw at heriau creu ymddiriedaeth o fewn y Gwasanaeth, a gofynnodd a fyddai unrhyw ddarparwyr allanol yn rhan o'r daith wella hon, ac a oedd unrhyw achrediadau y gellid eu cael o ganlyniad. Cadarnhaodd y PST fod rhywfaint o waith gyda darparwyr allanol wedi digwydd yn y gorffennol a bod trafodaethau ar waith i berson annibynnol eistedd ar y Bwrdd Diwylliannol. Roedd yr Undebau hefyd yn rhan o bob agwedd bosibl ar y daith ddiwylliannol hon.

6.4 PENDERFYNWYD:

i) Nodi'r Cynllun Gwella Diwylliannol Strategol, a
ii) chymeradwyo'r camau nesaf ar daith ddiwylliannol GTAGC.

7.0 PRIF GYNGHORYDD AC AROLYGYDD TÂN AC ACHUB CYMRU - ADRODDIAD AROLYGIAD

7.1 Cyflwynodd PSTC Anthony Jones i'r Aelodau Adroddiad Arolygiad Prif Gynghorydd ac Arolygydd Tân ac Achub Cymru (CFRAIW) dan y teitl 'Arolygiad o Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru i ystyried effeithiolrwydd ei ymateb i danau mewn anheddau domestig'.

7.2 Nodwyd bod y Prif Gynghorydd ac Arolygydd, Dan Stephens, eisoes wedi cwblhau arolygiadau thematig o effeithiolrwydd gweithredol Gwasanaethau Tân ac Achub De Cymru a Chanolbarth a Gorllewin Cymru yn 2024, gan gyhoeddi adroddiadau'r arolygiadau ym mis Hydref 2024 a mis Ionawr 2025.

7.3 Croesawyd Dan Stephens i'r cyfarfod a thynnodd sylw'r Aelodau at y ffaith fod adroddiad yr arolygiad yn helaeth a bod rhannau ohono'n eithaf technegol. Felly, roedd y materion o bwys wedi'u cofnodi yn y crynodeb gweithredol. Pwrpas yr arolygiad oedd canfod pa mor effeithiol oedd y Gwasanaeth yn ei ymateb i danau mewn anheddau domestig ac roedd y math hwn o ddigwyddiad wedi'i ddewis gan mai dyma'r digwyddiadau mwyaf niferus sy'n peri risg i fywyd y mae'r Gwasanaeth yn ymateb iddynt a dyma'r rhai sy'n peri'r risg fwyaf i ddiffoddwyr tân, preswylwyr sy'n gaeth a'u cartrefi.

7.4 Cafodd yr Aelodau eu briffio am y fethodoleg y tu ôl i'r adroddiad, a nodwyd bod y canfyddiadau yn debyg yn fras i rai De Cymru a Chanolbarth a Gorllewin Cymru.

7.5 Cynghorodd Mr Stephens, pe bai dyfarniad o berfformiad wedi'i wneud ar sail graddau, gan ddefnyddio'r graddau HMICFRS a ddefnyddir yn Lloegr, er nad oedd y fethodoleg a ddefnyddiwyd yn union yr un fath, y byddai perfformiad y tri GTA wedi cael ei asesu fel un annigonol. Y rheswm sylfaenol am hyn oedd bod llawer o'r hyfforddiant diffodd tân strwythurol a ddarperir gan y Gwasanaeth yn adlewyrchu tactegau a gyflwynwyd yn rhannol ar ddiwedd y 1990au, â sawl un ohonynt heb gael eu profi'n wyddonol ar y pryd na'u dylunio ar gyfer eu defnyddio yn y DU.

7.6 Roedd y sefyllfa hon wedi cael ei gwaethygu yng Ngogledd Cymru yn sgil cael gwared ar hen Orchmynion Polisi a Gweithdrefn Gweithredol y Gwasanaeth a chyflwyno Coflyfr (Aide Memoirs) yn eu lle, cyn cyflwyno'r Canllawiau Gweithredol Cenedlaethol yn llawn. Roedd hyn wedi'i wneud am y rhesymau cywir, ond roedd y Gwasanaeth yn wynebu heriau sylweddol o ran adnoddau, yn enwedig gyda rolau Goruchwylio a Rheolwyr Canol mewn meysydd swyddogaethol, gan ei gwneud hi'n anodd iawn i ymdopi â gofynion materion sy'n gritigol o ran risg, megis cyflwyno'r Canllawiau Gweithredol Cenedlaethol.

7.7 Nododd Mr Stephens y byddai angen cynnydd sylweddol a pharhaus mewn hyfforddiant ar gyfer diffoddwyr tân, ond na allai hyn fod ar draul gweithgareddau lleihau risg fel ymweliadau diogelwch yn y cartref. Roedd wedi ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cabinet yn nodi ei bryderon yn hynny o beth.

7.8 Wrth gloi, pwysleisiodd y Prif Gynghorydd ac Arolygydd nad bwriad yr arsylwadau a wnaed yn ei adroddiad oedd beirniadu diffoddwyr tân, Swyddogion na hyfforddwyr y Gwasanaeth, ac ni ddylid eu hystyried yn feirniadaeth. Roedd y lefelau ymgysylltu â'r holl staff trwy gydol yr arolygiad wedi bod yn ardderchog ac roedd pawb a fu'n rhan o'r arolygiad wedi bod yn barod iawn i fabwysiadu tactegau sy'n seiliedig ar dystiolaeth a gwelliannau i'r broses sicrwydd gweithredol.

7.9 Gofynnodd un Aelod a oedd y Gwasanaeth yn hyderus y gellid bodloni'r argymhellion o fewn yr amserlen a bennwyd, ac atebodd PSTC Jones fod gwaith yn y maes hwn eisoes wedi dechrau; fodd bynnag, roedd argaeledd adnoddau yn her sylweddol ac yn peri pryder gwirioneddol.

7.10 Bu un Aelod yn pendroni tybed a oedd preifateiddio Coleg y Gwasanaeth Tân wedi cyfrannu at y materion a amlygwyd, ac atebodd Mr Stephens trwy ddweud, er nad oedd hynny wedi helpu, bod gan y tri gwasanaeth tân ac achub yng Nghymru, yn y pen draw, y gallu i gydweithio a datblygu polisïau a hyfforddiant. Roedd yn hanfodol bod y cyfleusterau hyfforddi cywir ar gael i wneud hyn a dylid bwrw ymlaen â hyn fel blaenoriaeth, a chanmolodd Mr Stephens PST Docx am ei hymrwymiad i ddarparu cyfleuster hyfforddi o'r radd flaenaf i Ogledd Cymru. Anogodd yr Aelodau i gefnogi'r PST yn llawn yn ei huchelgais i ddarparu'r cyfleusterau hyfforddiant diffodd tân strwythurol mwyaf effeithiol yn y DU.

7.11 Gofynnwyd a oedd y Prif Gynghorydd ac Arolygydd yn hapus gyda'r amserlen ar gyfer datblygu'r ganolfan hyfforddi, ac a fyddai ef ei hun yn gallu bod yn rhan o'r gwaith o'i datblygu. Ymatebodd Mr Stephens, o ran y camau gweithredu cyflym, fod camau'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r rheini, megis datblygu polisi, a oedd yn angenrheidiol ac yn gadarnhaol. Roedd cymorth wedi cael ei ddarparu yn hynny o beth a byddai'n parhau i gael ei ddarparu. Roedd yn cydnabod bod unrhyw brosiect cyfalaf angen buddsoddiad sylweddol o ran amser, adnoddau ac arian ac na allai ddigwydd yn gyflym, er nad oedd ganddo unrhyw amheuaeth y byddai'r Ganolfan Hyfforddi yn cael ei darparu. Byddai unrhyw gymorth ariannol ar ffurf cyfalaf y gallai LlC ei roi i'r Awdurdod – ac roedd achos cryf iawn dros gael y ganolfan hyfforddi honno ar gyfer yr Awdurdod – yn cael ei gefnogi'n llawn gan y Prif Gynghorydd ac Arolygydd.

7.12 Gofynnodd y Cadeirydd a oedd wedi deall yn iawn mai ym maes rheolwyr canol y mae'r adnoddau y mae ar y Gwasanaeth eu hangen, a chadarnhaodd y Prif Gynghorydd ac Arolygydd fod hynny'n wir. Roedd nifer y rolau Rheolwr Gorsaf a Rheolwr Grŵp yn y Gwasanaeth yn cael ei lywio gan yr isafswm niferoedd sy'n angenrheidiol i lenwi'r rota i gwmpasu'r ddarpariaeth weithredol. Nid oedd hyn yr un fath â'r niferoedd sy'n ofynnol i gyflawni llwyth gwaith y sefydliad. Er bod pennu adnoddau y tu hwnt i gwmpas yr arolygiad, roedd yr adnoddau rheoli cyfyngedig a oedd ar gael i'r PST yn ddi-os yn her. Wedi dweud hynny, roedd yn amlwg bod terfyn ar faint o gyllid y gellid ei godi ar ffurf ardoll yr awdurdodau lleol.

7.13 Diolchodd y PST i Mr Stephens am ei waith manwl yn y maes hwn. Roedd y ffaith ei fod wedi cynnal adolygiad annibynnol wedi bod yn hynod o ddefnyddiol ac roedd yn ddatganiad clir, er bod y gwaith caled a'r parodrwydd i gyflawni o fewn y Gwasanaeth heb eu hail, bod yr hyn yr oedd yn bosibl ei gyflawni o fewn yr amserlen a ddarparwyd yn her.

7.14 PENDERFYNWYD:

i) Nodi cynnwys yr adroddiad; a
ii) nodi bod y cynllun gweithredu wedi'i roi ar waith i ystyried argymhellion arolygiad y Prif Gynghorydd ac Arolygydd.

8.0 MONITRO PERFFORMIAD, EBRILL 2024 – MAWRTH 2025

8.1 Cyflwynodd PSTC Anthony Jones yr Adroddiad Monitro Perfformiad ar gyfer Ebrill 2024 i Fawrth 2025. Cynghorwyd yr Aelodau fod yr adroddiad hwn yn darparu data cymharol yn ymwneud ag 'Ein 5 Egwyddor ar gyfer cadw cymunedau'n ddiogel' yr Awdurdod ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25. Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys sylwadau am weithgarwch, a gweithgarwch arfaethedig sy'n gysylltiedig â'r egwyddorion.

8.2 Tynnwyd sylw at y manylion a gynhwyswyd yn yr adroddiad mewn perthynas ag absenoldeb salwch a larymau tân awtomatig.

8.3 Roedd yr aelodau'n teimlo bod y gwaith atal sy'n cael ei wneud yn gadarnhaol yn gyffredinol; fodd bynnag, nododd y Cadeirydd fod y Prif Gynghorydd ac Arolygydd wedi tynnu sylw'n ddiweddar at broblem yng Ngwasanaeth Tân ac Achub Dyfnaint a Gwlad yr Haf lle bu ôl-groniad o 7000 o ymweliadau diogelwch yn y cartref. Roedd un o'r bobl hynny a oedd yn aros am ymweliad wedi marw mewn tân yn ddiweddarach. Nododd fod yr Adroddiad Monitro Perfformiad yn datgan bod y gyfradd cwblhau ar gyfer archwiliadau diogel ac iach uchel eu blaenoriaeth wedi gostwng oherwydd cyfuniad o ffactorau gweithredol a strategol. Gofynnodd beth oedd y ganran ar gyfer cynnal archwiliadau diogel ac iach o fewn y targed ar gyfer y Gwasanaeth.

8.4 Ymatebodd PSTC Jones i ddweud bod llawer o bobl agored i niwed yn cael eu cyfeirio gan asiantaethau partner ac yna bod yr atgyfeiriadau hyn yn cael eu hasesu a'u blaenoriaethu yn seiliedig ar y rhai sydd angen cymorth fwyaf. Gwelodd y Gwasanaeth gynnydd sylweddol yn nifer yr atgyfeiriadau gan asiantaethau yn 2024 gan arwain at ôl-groniad o atgyfeiriadau uchel eu blaenoriaeth a oedd yn peri risg i'r unigolyn dan sylw a'r Gwasanaeth. Cymerwyd camau i ymdrin â'r ôl-groniad hwn, ac i wella ansawdd a phriodoldeb atgyfeiriadau, ac roedd hynny yn ei dro wedi meithrin perthynas gryfach ag asiantaethau partner.

8.5 Cadarnhaodd PSTC Jones nad oedd yr union ddata o ran canrannau wrth law; fodd bynnag, roedd dangosfwrdd perfformiad wedi'i ddatblygu i flaenoriaethu archwiliadau diogel ac iach ar gyfer y bobl fwyaf agored i niwed, ac roedd yr angen i wella amseroedd ymateb i gynnal archwiliadau ar gyfer y rhai sy'n wynebu'r risg fwyaf yn flaenoriaeth ar gyfer 2025-26 mewn perthynas â gweithgareddau atal.

8.6 Gofynnodd y Cadeirydd i ddata canrannol mis wrth fis gael ei gynnwys mewn adroddiadau yn y dyfodol fel y gallai'r Aelodau fonitro'r agwedd hon yn fanylach.

8.7 Gofynnodd Aelod a oedd mesurau ataliol mewn perthynas â gweithgarwch addysgol wedi'u targedu o amgylch ymddygiad gwrthgymdeithasol, a sut roedd y data yn yr adroddiad yn cymharu ledled y DU. Ymatebodd PSTC Jones, mewn perthynas ag ymgysylltu â phobl ifanc, fod rhaglen ddwys o ymweliadau ysgol wedi'u targedu yn cael ei chynnal ochr yn ochr â chyflwyno rhaglenni Ffenics, wedi'u targedu i weithio ar y cyd ag ysgolion i helpu rhai o'r bobl ifanc mwy heriol. Roedd sesiynau Firesafe yn cael eu cyflwyno hefyd trwy Pentre Peryglon ac fe'u cynlluniwyd yn benodol i weithio gyda phobl ifanc a oedd yn arddangos arwyddion cynnar o weithgareddau cynnau tân.

8.8 Diolchwyd i'r PST, PSTC Jones a chynrychiolwyr eraill o'r Gwasanaeth am eu presenoldeb yn nigwyddiad Pride Prestatyn a gynhaliwyd y penwythnos diwethaf.

8.9 Canmolodd Aelod waith cwrs Ffenics ac roeddent yn teimlo y dylid eu canmol am y gwaith rhagorol y maent yn ei wneud. Gofynnwyd hefyd a oedd unrhyw gynlluniau i ymestyn y cynllun cadetiaid. Ymatebodd PSTC Jones trwy ddweud bod y rhaglenni cadetiaid yn rhan werthfawr o brofiad pobl ifanc ac roedd sawl achlysur wedi bod pan oedd y bobl ifanc hyn wedi mynd ymlaen i weithio i'r gwasanaeth tân. Fodd bynnag, roedd y cyrsiau cadetiaid yn cael eu rhedeg gan wirfoddolwyr ac felly roedd heriau o ran dod o hyd i bobl a oedd yn gallu ymrwymo i'r amser sydd ei angen i redeg cwrs cadetiaid.

8.10 Roedd yr aelodau'n falch o nodi bod niferoedd argaeledd y System Dyletswydd Ar Alwad yn ymddangos fel petaent wedi cynyddu rhywfaint yn ystod y dydd. Fodd bynnag, roedd yna'n dal i fod un orsaf System Dyletswydd Ar Alwad nad oedd wedi bod ar gael ers dros 12 mis, a gofynnwyd beth y gellid ei wneud i ddatrys hyn. Ymatebodd PSTC Jones fod y tîm ymateb wedi ad-drefnu eu strwythur i helpu i ganolbwyntio ar yr agweddau hynny oedd fwyaf heriol, a bod hynny wedi arwain at gynnydd graddol mewn argaeledd yn ystod yr wythnos. Yr hyn a oedd yn heriol oedd ei bod hi'n cymryd blwyddyn neu ddwy i lenwi swydd diffoddwr tân sy'n gadael gyda rhywun wedi'i hyfforddi i lefel debyg o ran sgiliau a chymhwysedd. Roedd hon yn broblem genedlaethol ar gyfer gwasanaethau ar alwad, ac roedd recriwtio a chadw yn her gyson, â gwaith yn digwydd ar hyn yn barhaus.

8.11 Nododd y Trysorydd y cynnydd mewn digwyddiadau galwadau diangen gan ofyn a oedd cynlluniau ar waith i fynd i'r afael â hyn ymhellach. Nododd hefyd fod tanau gwyllt ar eu lefel uchaf. Ymatebodd PSTC Jones fod cynnydd yn aml mewn tanau gwyllt pan oedd y tywydd wedi bod yn arbennig o sych yn ystod y tymor llosgi dan reolaeth. Fodd bynnag, roedd gallu'r Gwasanaeth i ymateb wedi bod yn gadarnhaol. Mewn perthynas â galwadau diangen, roedd y Gwasanaeth yn gweld y cynnydd mwyaf mewn perthynas ag anheddau domestig ac roedd gweithio mewn partneriaeth yn cael ei dargedu i liniaru'r her roedd hyn wedi'i chreu o ran ymateb.

8.12 PENDERFYNWYD:

i) Nodi cynnwys yr Adroddiad Monitro Perfformiad; a

ii) Gofyn i ddata gael ei gynnwys mewn adroddiadau yn y dyfodol ar faint o archwiliadau diogel ac iach uchel eu blaenoriaeth sy'n cael eu cwblhau o fewn y targed 28 diwrnod.

9.0 RHEOLI RISG STRATEGOL

9.1 Cyflwynodd PSTC Anthony Jones y papur Rheoli Risg Strategol a roddodd ddiweddariad i'r Aelodau mewn perthynas â'r Datganiad Parodrwydd i Dderbyn Risg a throsolwg o Gofrestr Risg Strategol yr Awdurdod.

9.2 Gofynnwyd a oedd angen cynnwys y risgiau a amlygwyd yn adroddiad y Prif Gynghorydd ac Arolygydd yn y Gofrestr Risg, ac atebodd PSTC Jones i ddweud eu bod eisoes wedi'u cynnwys yn y Cofrestrau Risg Adrannol yn hytrach na bod yn risgiau strategol.

9.3 PENDERFYNWYD:

i) nodi'r Gofrestr Risg Strategol.

10.0 MATERION BRYS – RHAN II

10.1 Yn unol â'r hysbysiad ar ddechrau'r cyfarfod, cyflwynwyd eitem Rhan II i'w thrafod gan y PST mewn perthynas â recriwtio dwy swydd PSTC i'r Gwasanaeth.

10.2 Dywedwyd wrth yr aelodau fod y Gwasanaeth wedi hysbysebu dwy swydd PSTC yn ddiweddar, yn lleol ac yn genedlaethol, a bod nifer o geisiadau wedi'u derbyn yn fewnol ac yn allanol, a oedd yn destun balchder gan ei fod yn golygu bod y Gwasanaeth yn parhau i fod yn lle deniadol i weithio. Roedd cyfweliadau rhestr hir yn cael eu cynnal ar 17 Mehefin 2025, gyda chyfweliadau rhestr fer i'w cynnal ar 27 Mehefin 2025.

10.3 Dywedodd y PST fod angen aelodau panel ar gyfer y cyfweliadau rhestr fer a bod yn rhaid i'r rhain fod yn Aelodau o'r Panel Gweithredol. Roedd cynrychiolwyr o Ynys Môn, Sir y Fflint a Chonwy eisoes wedi'u canfod, ond roedd angen cynrychiolwyr o Wrecsam, Gwynedd a Sir Ddinbych o hyd. Os oedd unrhyw Aelodau o'r awdurdodau lleol hyn ar gael ar 27 Mehefin 2025, ac yn gallu mynd i'r Pencadlys, gofynnwyd iddynt roi gwybod i'r Gwasanaethau Aelodau cyn gynted â phosibl. Pwysleisiwyd pa mor bwysig oedd y penodiadau hyn i'r Gwasanaeth a bod angen gwneud y dewisiadau cywir.

10.4 Gofynnodd un Aelod a oedd proses ar waith ar gyfer gwirio cyfrifon cyfryngau cymdeithasol yr ymgeiswyr, ac atebodd y PST i ddweud, er bod geirdaon wastad yn cael eu gwirio, nad oedd cyfrifon cyfryngau cymdeithasol wedi cael eu gwirio yn y gorffennol. Fodd bynnag, roedd cydnabyddiaeth bod y rhain yn swyddi uchel eu proffil a bod angen i bobl gael hyder yn eu harweinwyr felly byddai cyfreithlondeb edrych ar y cyfrifon ar yr achlysur hwn yn cael ei archwilio.

10.5 Gofynnodd un Aelod pa mor fawr fyddai rhan yr Undebau yn y broses, ac atebodd y PST fod yr asesiad cyfryngau a'r profion seicometrig ar waith ac y byddai hi'n gweithio ar bennu sut y gellid cynrychioli barn gweithwyr.

Daeth y cyfarfod i ben: 15:35 o'r gloch